

Nodyn i gynhyrchwyr S4C: Archif y BBC yng Nghymru

Fel rhan o'r Bartneriaeth Strategol rhwng y BBC ac S4C, mae'r BBC wedi cytuno ar delerau ar gyfer defnyddio adnoddau archif BBC Cymru Wales. Dyma fanylion y trefniadau newydd:

1. Yr Hawl

1.1 Yr hawl i gynhyrchwyr annibynnol gael mynediad at glipiau o ddeunydd archif BBC Cymru a'u defnyddio, yn rhad ac am ddim o ran taliadau trwydded, at ddibenion rhaglenni a chynnwys eraill a gomisiynwyd gan S4C i'w darlledu ar wasanaethau S4C. Os oes angen hawliau byd-eang, mae angen i'r cynhyrchwyr annibynnol sicrhau'r rhain, gan fod y rhan fwyaf o'r archif hŷn wedi'i chlirio ar gyfer y DU yn unig.

1.2 Mae hyn yn amodol ar dalu ffi ymchwil arferol y BBC a chostau trosglwyddo technegol, yn ogystal â chael unrhyw ganiatâd angenrheidiol o ran hawliau sylfaenol cyn defnyddio'r deunydd, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) actorion, awduron sgriptiau a cherddorion.

1.3 Gwneir pob ymdrech i ddarparu clipiau o fewn 3 diwrnod gwaith.

1.4 Bydd angen rhoi cydnabyddiaeth i "BBC Cymru Wales" am ddefnyddio'r clipiau.

2. Deunydd archif

Nid yw ffotograffau llonydd yn rhan o'r cytundeb rhwng y BBC ac S4C, a dylid eu cael drwy BBC Photo Sales.

Yn y cyd-destun hwn, mae archif BBC Cymru yn golygu archif radio iaith Gymraeg y BBC ynghyd ag archif rhaglenni teledu'r BBC sy'n eiddo i'r BBC ac a gynhyrchwyd gan y BBC i'w darlledu ar wasanaethau S4C (gan gynnwys rhaglenni iaith Gymraeg a gynhyrchwyd gan y BBC cyn 1982), yn ogystal â rhaglenni teledu Saesneg sy'n eiddo i'r BBC ac a gynhyrchwyd i'w darlledu ar wasanaethau'r BBC yng Nghymru (h.y. nid rhaglenni ar gyfer gwasanaethau rhwydwaith y BBC).

Nid yw ffotograffau llonydd yn rhan o'r cytundeb rhwng y BBC ac S4C, a dylid eu cael drwy BBC Photo Sales.

3. Hyd y clipiau

3.1 Yn y cyd-destun hwn, mae clipiau yn golygu darnau wedi'u golygu o ddeunydd archif nad ydynt yn hirach na 5 (pump) munud fesul 30 (deg ar hugain) munud neu lai o amser rhedeg y rhaglen.

3.2 Ni all clipiau BBC Cymru fod yn hwy na 25% o'r rhaglen orffenedig.

4. Costau Ymchwil a Thechnegol

4.1 Codir ffi o £60 yr awr + TAW am waith ymchwil gan staff adran Archif y BBC yng Nghymru.

4.2 Codir isafswm ffi dechnegol a gweinyddol o £120 + TAW am ddarparu hyd at 5 ffeil cydraniad uchel i'w darlledu; ynghyd â £60 am bob 5 clip ychwanegol.

4.3 Codir £60 yr awr am baratoi copïau cydraniad isel at ddibenion gwyllo (fel arfer hyd at 5 clip).

5. Ecsploetio pellach

Bydd unrhyw ddefnydd masnachol neu ddefnydd arall o'r clipiau gan gynhyrchwyr annibynnol S4C yn amodol ar gydsyniad ysgrifenedig y BBC ac ar y cyfraddau marchnad cyfredol ar gyfer defnydd pellach drwy drefniant gyda Getty Images.

Rhaid defnyddio deunydd archif a ddarperir ar gyfer un prosiect at y diben a nodwyd yn unig. Bydd unrhyw ailddefnydd o archif BBC Cymru – a gafwyd ar gyfer un cynhyrchiad ond a ddefnyddiwyd mewn un arall – yn cael ei drin fel achos newydd a'i brisio yn unol â hynny.